Cyllid & Thollau EM

# Nodiadau: Tramor

Blwyddyn dreth 6 Ebrill 2022 i 5 Ebrill 2023 (2022-23)

# Defnyddiwch y nodiadau hyn i'ch helpu i lenwi tudalennau Tramor eich Ffurflen Dreth

Mae'r nodiadau hyn ar gyfer mathau cyffredin o incwm tramor, gan gynnwys:

- llog o gynilion tramor (tudalen FN 6)
- difidendau o gwmnïau tramor (tudalen FN 7)
- incwm o gynilion tramor a drosglwyddwyd (tudalen FN 7)
- incwm difidend tramor a drosglwyddwyd (tudalen FN 8)
- incwm o bensiynau tramor (tudalen FN 8)
- incwm o dir ac eiddo tramor (tudalen FN 11)
- treth dramor a dalwyd ar gyflogaeth, hunangyflogaeth ac incwm arall (tudalen FN 16)

Os nad ydych yn siŵr sut i ddatgan incwm tramor, treth tramor a rhyddhad credyd treth dramor, gofynnwch i'ch ymgynghorydd treth.

## Lwfans incwm o eiddo

Mae incwm o eiddo, gan gynnwys eiddo tramor ac eiddo yn y DU, hyd at £1,000, wedi'i eithrio rhag treth ac nid oes angen rhoi gwybod amdano ar Ffurflen Dreth. Mae'r eithriad hwn yn gymwys hyd yn oed os yw eich cyfran chi o'r incwm hwn yn deillio o eiddo yr ydych yn berchen arno neu'n ei osod ar y cyd.

Os yw cyfanswm eich incwm o eiddo, gan gynnwys incwm o'ch eiddo tramor ac o eiddo yn y DU neu incwm o osod llety gwyliau wedi'i ddodrefnu y rhoddir gwybod amdano ar y dudalen 'Eiddo yn y DU', yn £1,000 neu lai, peidiwch â llenwi'r tudalennau 'Tramor' oni bai bod eich treuliau caniataol yn uwch na'ch trosiant a'ch bod eisiau hawlio rhyddhad am y golled yn erbyn incwm o eiddo yn y dyfodol. Os ydych yn gwneud hyn, peidiwch â llenwi blwch lwfans incwm o eiddo (blwch 14.1).

Os yw cyfanswm eich incwm o eiddo, gan gynnwys incwm o eiddo tramor ac eiddo yn y DU neu incwm o osod llety gwyliau wedi'i ddodrefnu, y rhoddir gwybod amdano ar y dudalen 'Eiddo yn y DU', yn fwy na £1,000, llenwch y tudalennau 'Tramor' trwy naill ai:

- hawlio'r lwfans ym mlwch 14.1 – os ydych yn hawlio lwfans incwm o eiddo, ni allwch ddidynnu unrhyw dreuliau caniataol na hawlio unrhyw lwfansau eraill
- cyfrifo eich elw o eiddo trwy ddidynnu treuliau a lwfansau caniataol – os gwnewch hyn, ni allwch hawlio'r lwfans incwm o eiddo

Os oes gennych fwy nag un busnes eiddo, ni all cyfanswm y lwfans incwm o eiddo a hawliwyd fod yn fwy na £1,000.

> I gael rhagor o wybodaeth am y lwfans incwm o eiddo, ewch i www.gov.uk/guidance/tax-free-allowances-on-property-and-trading-income

## Gwirio a oes yn dal angen i chi lenwi Ffurflen Dreth

Os nad ydych yn credu bod angen i chi lenwi Ffurflen Dreth ar gyfer y flwyddyn hon, ewch i www.gov.uk/gwirio-angen-ffurflen-dreth

Os nad oes angen i chi lenwi Ffurflen Dreth, mae'n rhaid i chi roi gwybod i ni erbyn 31 Ionawr 2024 er mwyn osgoi cosbau.

Defnyddiwch y tudalennau 'Tramor' os ydych am hawlio Rhyddhad Credyd Treth Dramor neu Dreth Ataliedig Arbennig os ydych yn hawlio'r sail trosglwyddo.

Peidiwch â defnyddio'r tudalennau 'Tramor' ar gyfer:

- incwm tramor a enillwyd gan eich busnes neu bartneriaeth – defnyddiwch y tudalennau 'Hunangyflogaeth' neu 'Partneriaeth'
- enillion cyfalaf sy'n codi drwy waredu asedion tramor – defnyddiwch y tudalennau 'Crynodeb Treth Enillion Cyfalaf'
- incwm o gyflogaeth dramor – defnyddiwch y tudalennau 'Cyflogaeth' i roi gwybod am yr incwm hwn a defnyddiwch y tudalennau 'Tramor' yn unig i hawlio'r dreth tramor a dalwyd ar yr incwm hwn
- incwm o lety gwyliau wedi'i ddodrefnu yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd – defnyddiwch y tudalennau 'Eiddo yn y DU' heblaw eich bod yn agored i dreth ar y sail drosglwyddo


Wrth wneud datganiad o incwm tramor, gwnewch yn siŵr bod y ffigur o 'incwm a drethwyd yn ddwbl' yn cael ei ddangos - y ffigur a oedd yn drethadwy mewn gwirionedd yn y wlad dramor.

Os ydych yn defnyddio'r ffurflen hon i hawlio rhyddhad am dreth dramor a dalwyd ar enillion cyfalaf (blychau 33 a 37 i 40); mae'n rhaid hefyd cynnwys yr enillion yn y tudalennau 'Crynodeb Treth Enillion Cyfalaf'

> I gael rhagor o wybodaeth am lety gwyliau wedi'i dodrefnu, ewch i www.gov.uk a chwiliwch am 'HS253' ac ar gyfer y sail drosglwyddo chwiliwch am 'HS264'.

## Eich enw a Chyfeirnod Unigryw y Trethdalwr

Os gwnaethoch argraffu'r tudalennau 'Tramor' o'n gwefan, rhowch eich enw a Chyfeirnod Unigryw y Trethdalwr (UTR) yn y blychau ar frig y ffurflen.



Enghraifft o flychau enw ac UTR wedi'u llenwi

## Incwm na ellir ei drosglwyddo i'r DU

Os gwnaethoch hawlio mewn blwyddyn dreth flaenorol fod unrhyw incwm yn incwm na ellir ei drosglwyddo i'r DU, ac os daeth y cyfyngiadau a oedd yn eich rhwystro rhag dod â'r incwm hwnnw i'r DU i ben yn ystod y flwyddyn dreth 2022 i 2023, rhaid i chi drosi'r incwm a'r dreth dramor honno i bunnoedd y DU gan ddefnyddio'r gyfradd gyfnewid a oedd yn weithredol pan ddaeth y cyfyngiad i ben.

Incwm tramor nad oeddech yn gallu ei ddwyn i'r DU oherwydd rheolaethau cyfnewid neu brinder arian cyfred tramor yn y wlad dramor yw hwn. Os byddwch yn dod ag incwm i mewn i'r DU nes ymlaen, troswch yr incwm a'r dreth dramor i bunnoedd y DU, gan ddefnyddio'r gyfradd gyfnewid pan wnaethoch ei drosglwyddo.

### Blwch 1  Rhowch 'X' yn y blwch os nad oeddech yn gallu trosglwyddo eich incwm tramor i'r DU

Os ydych yn rhoi 'X' ym mlwch 1, rhaid i chi roi manylion am y wlad lle cododd yr incwm, y swm yn yr arian cyfred tramor ac unrhyw dreth dramor a dalwyd, yn 'Unrhyw wybodaeth arall' ar dudalen TR 7 eich Ffurflen Dreth.

## Rhyddhad Credyd Treth Dramor

Os ydych wedi talu treth mewn gwlad arall ar eich incwm tramor, gallwch hawlio Rhyddhad Credyd Treth Dramor (RhCTD) os:

- ydych yn breswylydd y DU
- cafodd yr incwm tramor ei drethu'n gywir o dan gyfraith y wlad honno, mae hyn yn golygu y dylech fod wedi cymryd camau rhesymol (er enghraifft, cyflwyno Ffurflen Dreth dramor), i hawlio bob lwfans, rhyddhad ac eithriad oedd ar gael yn y wlad honno
- nad yw swm y RhCTD yn fwy na threth y DU ar yr un eitem o incwm neu enillion
- yw cytundeb trethiant dwbl (CTD) yn bodoli a chyfyngir y rhyddhad treth dramor i isafswm y dreth dramor sy'n daladwy yn y cytundeb

Mae CTD yn drefniant i osgoi trethu'r un eitem ddwywaith. Os oes CTD mewn grym, gwiriwch sut mae ei delerau yn berthnasol i chi cyn i chi hawlio RhCTD. Dylid ond cynnwys didyniadau derbyniadwy fel rhan o'ch hawliad am RhCTD – mae'r Canllaw Trethiant Dwbl yn rhoi rhagor o wybodaeth am ba ddidyniadau sy'n dderbyniadwy.

Os nad yw'r cytundeb yn rhoi'r hawl i'r wlad arall i drethu'r incwm, ni allwch hawlio RhCTD a rhaid i chi hawlio rhyddhad yn y wlad arall. Os yw CTD yn nodi y gall y wlad arall drethu'r incwm ar gyfradd benodol yn unig, a'ch bod wedi talu treth i'r wlad arall ar gyfradd uwch, mae'n rhaid i chi gyfyngu'ch hawliad i RhCTD i'r gyfradd a bennir yn y CTD.

Os nad oes CTD yn bodoli, neu os nad yw'r cytundeb yn cwmpasu'r dreth dramor benodol honno, dim ond os yw'r dreth yn cyfateb â Threth Enillion Cyfalaf neu Dreth Incwm y DU y mae rhyddhad ar gael.

Mae rhagor o wybodaeth i'w chael yn www.gov.uk/government/publications/double-taxation-treaties-territory-residents-with-uk-income

### Blwch 2  Os ydych yn cyfrifo eich treth, nodwch gyfanswm y Rhyddhad Credyd Treth Dramor ar eich incwm

Does dim rhaid i chi gyfrifo'r RhCTD eich hun. Byddwn yn gwneud hyn drosoch os byddwch yn llenwi blychau perthnasol eraill ac yn anfon eich Ffurflen Dreth erbyn y dyddiad cyflwyno. Dim ond blwch 2 y bydd angen i chi ei lenwi os ydych am gyfrifo'r RhCTD eich hun.

Os hoffech gyfrifo RhCTD eich hun, defnyddiwch Daflen Gymorth 263, '*Relief for foreign tax paid*' yn gyntaf. Rhowch gyfanswm y rhyddhad ym mlwch 2.

> ℹ I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk a chwiliwch am 'HS263'.

## Incwm o ffynonellau tramor

Os byddwch yn nodi unrhyw symiau ar dudalennau F 2 ac F 3, dylech drosi'r incwm i bunnoedd y DU, gan ddefnyddio'r gyfradd gyfnewid ar yr adeg pan gododd yr incwm. Os nad ydych yn siŵr, gofynnwch i'ch ymgynghorydd treth. neu ewch i www.gov.uk/government/publications/exchange-rates-for-customs-and-vat-yearly


Nodwch y swm llawn yn y blychau perthnasol (hyd yn oed os na ddaethoch â'r incwm i mewn i'r DU) a llenwch y blychau 'Cyfanswm' a welir ar dudalen F 3.

Gwiriwch y cytundeb trethiant dwbl perthnasol ar gyfer unrhyw derfynau i'r rhyddhad y gallwch ei hawlio.

Os nad oes gennych ddigon o le ar gyfer yr holl fanylion i'w cofnodi, atodwch dudalen ar wahân ar gyfer pob math o incwm.

## Colofn A

Defnyddiwch y rhestr ar dudalennau FN 3 i FN 5 er mwyn dod o hyd i'r cod 3 llythyren ar gyfer y wlad lle cododd eich incwm. Nodwch y cod hwnnw yng ngholofn A. Defnyddiwch res wahanol ar gyfer pob gwlad.



Enghraifft o god y wlad ar gyfer Jersey, colofn A

### Rhestr o wledydd neu diriogaethau

Mae '•' yn ail golofn y rhestr yn dangos bod gan y DU CTD gyda'r wlad neu'r diriogaeth honno.

| Gwlad neu diriogaeth | CTD | cod 3 llythyren |
|---|---|---|
| Affganistan | | AFG |
| Yr Aifft | • | EGY |
| Albania | • | ALB |
| Algeria | • | DZA |
| Yr Almaen | • | DEU |
| Andorra | | AND |
| Angola | | AGO |
| Anguilla | | AIA |
| Antigwa a Barbwda | • | ATG |
| Yr Ariannin | • | ARG |
| Armenia | • | ARM |
| Arwba | | ABW |
| Awstralia | • | AUS |
| Awstria | • | AUT |
| Azerbaijan | • | AZE |
| Bahamas | | BHS |
| Bahrain | • | BHR |
| Bangladesh | • | BGD |
| Barbados | • | BRB |
| Belarws | • | BLR |
| Belize | • | BLZ |
| Benin | | BEN |
| Bermwda | | BMU |
| Bhwtan | | BTN |
| Bolifia | • | BOL |
| Bonaire | | BES |
| Bosnia a Hertsegofina | • | BIH |
| Botswana | • | BWA |
| Brasil | | BRA |
| Brunei Darussalam | • | BRN |
| Burkino Faso | | BFA |
| Burma (a elwir hefyd yn Myanmar) | • | MMR |
| Bwlgaria | • | BGR |
| Bwrwndi | | BDI |
| Caledonia Newydd | | NCL |
| Cambodia | | KMH |
| Camerŵn | | CMR |
| Canada | • | CAN |
| Cape Verde | | CPV |
| Cenia | • | KEN |
| Ciribati | • | KIR |
| Colombia | • | COL |
| Comoros | | COM |
| Congo | | COG |
| Costa Rica | | CRI |

| Gwlad neu diriogaeth | CTD | cod 3 llythyren |
|---|---|---|
| Côte d'Ivoire | • | CIV |
| Coweit | • | KWT |
| Croatia | • | HRV |
| Curaçao | | CUW |
| Cwba | | CUB |
| Cyprus | • | CYP |
| De Affrica | • | ZAF |
| De Corea | • | KOR |
| Denmarc | • | DNK |
| De Swdan | | SSD |
| Y Deyrnas Unedig | | GBR |
| Djibouti | | DJI |
| Dominica | | DMA |
| Ecwador | | ECU |
| Yr Eidal | • | ITA |
| El Salvador | | SLV |
| Yr Emiraethau Arabaidd Unedig | • | ARE |
| Eritrea | | ERI |
| Estonia | • | EST |
| Ethiopia | | ETH |
| Y Fatican | • | VAT |
| Feneswela | • | VEN |
| Ffederasiwn Rwsiaidd | • | RUS |
| Y Ffindir | • | FIN |
| Ffrainc | • | FRA |
| Fiet-nam | • | VNM |
| Fiji | • | FJI |
| Gabon | | GAB |
| Gaiana | • | GUY |
| Gaiana Ffrengig | • | GUF |
| Gambia | • | GMB |
| Georgia | • | GEO |
| Ghana | • | GHA |
| Gibraltar | • | GIB |
| Gini | | GIN |
| Gini Trofanol | | GNQ |
| Gini-Bissau | | GNB |
| Gogledd Corea | | PRK |
| Grenada | • | GRD |
| Guadeloupe | • | GLP |
| Guernsey | • | GGY |
| Gwam | | GUM |
| Gwatemala | | GTM |
| Gweriniaeth Canol Affrica | | CAF |
| Gweriniaeth Ddemocrataidd y Congo (Zaire gynt) | | COD |

| Gwlad neu diriogaeth | CTD | cod 3 llythyren |
|---|---|---|
| Gweriniaeth Dominica | | DOM |
| (Gweriniaeth) Iwerddon | • | IRL |
| Gweriniaeth Slofacia | • | SVK |
| Gwlad Belg | • | BEL |
| Gwlad Groeg | • | GRC |
| Gwlad yr Iâ | • | ISL |
| Gwlad Pwyl | • | POL |
| Gwlad Thai | • | THA |
| Haiti | | HTI |
| Hondwras | | HND |
| Hong Kong (SAR) | • | HKG |
| Hwngari | • | HUN |
| India | • | IND |
| Indonesia | • | IDN |
| Yr Iorddonen | • | JOR |
| Irac | | IRQ |
| Iran | | IRN |
| Yr Iseldiroedd | • | NLD |
| Israel | • | ISR |
| Jamaica | • | JAM |
| Japan | • | JPN |
| Jersey | • | JEY |
| Kazakhstan | • | KAZ |
| Kosovo | • | KSV |
| Kyrgyzstan | • | KGZ |
| Laos | | LAO |
| Latfia | • | LVA |
| Lesotho | • | LSO |
| Libanus | | LBN |
| Liberia | | LBR |
| Libya | • | LBY |
| Liechtenstein | • | LIE |
| Lithwania | • | LTU |
| Lwcsembwrg | • | LUX |
| Macao (SAR) | | MAC |
| Macedonia (FYR) | • | MKD |
| Madagascar | | MDG |
| Malawi | • | MWI |
| Maldives | | MDV |
| Maleisia | • | MYS |
| Mali | | MLI |
| Malta | • | MLT |
| Martinique | • | MTQ |
| Mawrisiws | • | MUS |
| Mawritania | | MRT |

| Gwlad neu diriogaeth | CTD | cod 3 llythyren |
|---|---|---|
| Mayotte | | MYT |
| Mecsico | • | MEX |
| Micronesia | | FSM |
| Moldofa | • | MDA |
| Monaco | | MCO |
| Mongolia | • | MNG |
| Montenegro | • | MNE |
| Montserrat | • | MSR |
| Morocco | • | MAR |
| Mosambîc | | MOZ |
| Namibia | • | NAM |
| Nawrw | | NRU |
| Nepal | | NPL |
| Nicaragwa | | NIC |
| Niger | | NER |
| Nigeria | • | NGA |
| Niue | | NIU |
| Norway | • | NOR |
| Oman | • | OMN |
| Pacistan | • | PAK |
| Palau | | PLW |
| Panama | • | PAN |
| Papwa Gini Newydd | • | PNG |
| Paragwâi | | PRY |
| Perw | | PER |
| Polynesia Ffrengig | | PYF |
| Portiwgal | • | PRT |
| Puerto Rico | | PRI |
| Qatar | • | QAT |
| Reunion | • | REU |
| Romania | • | ROU |
| Rwanda | | RWA |
| Saba | • | BES |
| Sambia | • | ZMB |
| Samoa | | WSM |
| Samoa Americanaidd | | ASM |
| San Marino | | SMR |
| Sao Tome a Principe | | STP |
| Saudi Arabia | • | SAU |
| Sbaen | • | ESP |
| Seland Newydd | • | NZL |
| Senegal | • | SEN |
| Serbia a Montenegro | • | SRB |
| Seychelles | | SYC |
| Sierra Leone | • | SLE |

| Gwlad neu diriogaeth | CTD | cod 3 llythyren |
|---|---|---|
| Simbabwe | • | ZWE |
| Singapôr | • | SGP |
| Sint Eustatius | | BES |
| Sint Maarten (y rhan Iseldiraidd) | | SXM |
| Slofenia | • | SVN |
| Somalia | | SOM |
| Sri Lanka | • | LKA |
| St Helena a'i Dibyniaethau | | SHN |
| St Kitts a Nevis | • | KNA |
| St Lucia | | LCA |
| St Pierre a Miquelon | | SPM |
| St Vincent a'r Grenadines | | VCT |
| Swaziland | • | SWZ |
| Swdan | • | SDN |
| Sweden | • | SWE |
| Y Swistir | • | CHE |
| Swrinam | | SUR |
| Syria | | SYR |
| Taiwan | • | TWN |
| Tajikistan | • | TJK |
| Tansanïa | | TZA |
| Timor-Leste | | TLS |
| Tiwnisia | • | TUN |
| Togo | | TGO |
| Tokelau | | TKL |
| Tonga | | TON |
| Trinidad a Tobago | • | TTO |
| Tsiad | | TCD |
| Tsieina | • | CHN |
| Tsile | • | CHL |
| Turkmenistan | • | TKM |
| Twfalw | • | TUV |
| Twrci | • | TUR |
| Unol Daleithiau America | • | USA |
| Vanuatu | | VUT |
| Wcráin | • | UKR |
| Wganda | • | UGA |
| Wrwgwái | • | URY |
| Wsbecistan | • | UZB |
| Y Weriniaeth Tsiec | • | CZE |
| Yemen | | YEM |
| Yr Ynys Las | | GRL |
| Ynys Manaw | • | IMN |
| Ynys Pitcairn | | PCN |
| Ynys y Nadolig | • | CXR |

| Gwlad neu diriogaeth | CTD | cod 3 llythyren |
|---|---|---|
| Ynysoedd Caiman | • | CYM |
| Ynysoedd Cocos (Keeling) | • | CCK |
| Ynysoedd Cook | | COK |
| Ynysoedd y Falkland | • | FLK |
| Ynysoedd Ffaröe | • | FRO |
| Ynysoedd Gogledd Mariana | | MNP |
| Ynysoedd Marshall | | MHL |
| Ynys Norfolk | • | NFK |
| Ynysoedd y Philipinau | • | PHL |
| Ynysoedd Solomon | • | SLB |
| Ynysoedd Svalbard a Jan Mayen | | SJM |
| Ynysoedd Twrcs a Caicos | | TCA |
| Ynysoedd yr Wyryf Prydeinig | • | VGB |
| Ynysoedd yr Wyryf yr Unol Daleithiau | | VIR |
| Ynysoedd Wallis a Futuna | | WLF |
| Dim un o'r uchod | | ZZZ |

(Rhowch fanylion yn 'Unrhyw wybodaeth arall' ar dudalen TR 7 eich Ffurflen Dreth.)

## Colofn B

Yng ngholofn B, nodwch gyfanswm yr incwm (mewn punnoedd y DU) cyn didynnu unrhyw dreth dramor neu Dreth Ataliedig Arbennig (TAA).

TAA yw swm o dreth a ddidynnwyd oddi ar rai taliadau penodol i breswylwyr y DU (yn ychwanegol i dreth dramor). Gellir ei gosod yn erbyn eich rhwymedigaeth treth yn y DU, neu gellir ei had-dalu i chi os yw'r swm yn fwy na'ch rhwymedigaeth ar gyfer y flwyddyn honno. Bydd hyn ond yn berthnasol bellach os ydych yn drethadwy ar y sail drosglwyddo ac yn trosglwyddo incwm sy'n gysylltiedig â blynyddoedd cynharach pan gafodd Treth Ataliedig Arbennig ei hatal.

Mae'n rhaid i chi ychwanegu'r dreth a ddidynnwyd, i'r swm a gafwyd ar ôl y didyniad, a rhoi'r cyfanswm yng ngholofn B (sicrhewch eich bod yn nodi'r TAA yng ngholofn D).

Os oes gennych fwy nag un ffynhonnell o'r un math o incwm o'r un wlad, ychwanegwch y symiau at ei gilydd (oni bai cânt eu trethu mewn ffordd wahanol). Er enghraifft, os oes gennych 2 gyfrif cynilo ym Monaco, ychwanegwch y symiau cyn nodi'r cyfanswm yng ngholofn B.

**B Swm yr incwm sy'n codi neu a gafwyd cyn didynnu treth**

**illio o gynilion tramor**

£ | | | | | | 1 | 2 | 0

Enghraifft o incwm sy'n codi neu a gafwyd, colofn B

Gweithredir TAA gan y tiriogaethau canlynol: Andorra, Awstria, Curaçao, Gibraltar, Jersey, Liechtenstein, Lwcsembwrg, Monaco, San Marino, Sint Maarten a'r Swistir.

Rhowch y canlynol yn y blwch 'Gwybodaeth ychwanegol', sef blwch 19 ar dudalen TR 7 eich Ffurflen Dreth:

- enw'r dreth dramor a ddidynnwyd neu enw'r cytundeb y didynnwyd y dreth dramor oddi tano
- y blynyddoedd pan ddidynnwyd y dreth dramor y mae'r hawliad hwn am TAA yn berthnasol iddynt

## Colofn C

Os didynnwyd unrhyw dreth dramor o'ch incwm yng ngholofn B, nodwch swm y dreth (mewn punnoedd y DU) yng ngholofn C. Treth dramor yw'r isaf o'r dreth dramor a chedwir yn ôl mewn gwirionedd, a'r swm o gredyd treth a ganiateir o dan delerau cytundeb trethiant dwbl.

## Colofn D

Os ydych yn drethadwy ar y sail drosglwyddo, rhowch unrhyw Dreth Ataliedig Arbennig a dynnwyd oddi ar eich incwm tramor yng ngholofn D. Mae'n rhaid i chi ddangos eich swm mewn punnoedd y DU.

Os didynnwyd unrhyw Dreth Incwm y DU o'r incwm hwn, dylech ei chynnwys yma a rhoi manylion pellach yn 'Unrhyw wybodaeth arall' ar dudalen TR 7 eich Ffurflen Dreth.

## Colofn E

Rhowch 'X' yn y blwch hwn os ydych yn hawlio RhCTD.

## Colofn F

Os ydych yn hawlio RhCTD, dylai'r swm hwn fod yr un peth â'r ffigur yng ngholofn B. Os nad ydych yn hawlio RhCTD, dylai'r ffigur fod y swm yng ngholofn B, llai unrhyw swm yng ngholofn C.

O 6 Ebrill 2016 ymlaen, os nad ydych wedi talu treth oherwydd bod yr incwm yn llai na'r Lwfans Difidend, ni allwch hawlio Rhyddhad Credyd Treth Dramor ar yr incwm hwnnw.

## Llog ac incwm arall o gynilion tramor

Yng ngholofnau A i F dylech gynnwys unrhyw:

- log o gyfrifon banc tramor, stociau benthyg cwmnïau tramor, neu o fenthyciadau i unigolion neu sefydliadau y tu allan i'r DU
- llog o ymddiriedolaethau unedau tramor a chronfeydd buddsoddi tramor eraill, gan gynnwys o gronfeydd alltraeth dynodol (defnyddiwch y manylion ar y daleb a gawsoch gan yr ymddiriedolaeth unedol neu'r gronfa) – pan fo'r gronfa alltraeth wedi buddsoddi mwy na 60% mewn asedion sy'n dwyn llog, caiff unrhyw ddosbarthiad a gewch, neu a hysbysir i chi, ei drin fel llog a gafwyd
- incwm o flwydd-dal oes a brynwyd
- 'incwm dynodadwy' gormodol o gronfeydd alltraeth dynodol – dyma incwm sy'n cronni mewn cronfeydd alltraeth nad ydych wedi'i gael hyd yn hyn – mae'n rhaid i'r gronfa alltraeth roi fanylion yr incwm dynodadwy gormodol i gyfranogwyr
- incwm arall o gynilion tramor a gwarantau incwm cronedig

ⓘ I gael rhagor o wybodaeth ynglŷn â'r Cynllun Incwm Cronedig, ewch i www.gov.uk a chwiliwch am 'HS343'.

Gwiriwch Erthygl Llog y CTD perthnasol cyn llenwi'r adran hon i sicrhau eich bod yn gallu hawlio RhCTD gan fod rhai mathau o incwm yn drethadwy yn y DU yn unig.

### Blwch 3

Llenwch golofnau A i F, ychwanegwch at ei gilydd y ffigurau a gofnodwyd yng ngholofn D, a rhowch y cyfanswm ym mlwch 3. Dylech gynnwys unrhyw symiau a ddangosir ar dudalennau ar wahân yr ydych yn eu hatodi i'r tudalennau 'Tramor'.

### Blwch 4

Llenwch golofnau A i F, ychwanegwch at ei gilydd y ffigurau a gofnodwyd yng ngholofn F, a rhowch y cyfanswm ym mlwch 4. Dylech gynnwys unrhyw symiau a ddangosir ar dudalennau ar wahân yr ydych yn eu hatodi i'r tudalennau 'Tramor'.

## Difidendau o gwmnïau tramor

Gwiriwch Erthygl Difidend y CTD perthnasol cyn i chi lenwi'r adran hwn, oherwydd gallai fod cyfyngiad i faint o gredyd treth dramor y gallwch ei hawlio.

Ni allwch hawlio RhCTD ar gyfer difidendau a drethwyd o Antigua, Awstralia (difidendau wedi'u ffrancio yn unig), Belize, Cyprus, Gambia, Guernsey, Jersey, Kiribati, Malaysia, Malta, Montserrat, Singapôr, Ynysoedd Caiman nac Ynys Manaw.

Yng ngholofnau A i F rhowch fanylion unrhyw:

- ddifidendau o gwmnïau tramor (defnyddiwch y manylion sydd ar daleb eich difidend)
- dosbarthiadau (defnyddiwch eu gwerth ar y dyddiad dosbarthu) o ffynonellau tramor, er enghraifft asedion cwmni a ryddhawyd gyfranddalwyr
- difidendau o ymddiriedolaethau unedau tramor a chronfeydd buddsoddi tramor eraill, gan gynnwys o gronfeydd alltraeth dynodol
- 'incwm dynodadwy' gormodol o gronfeydd alltraeth dynodol – dyma incwm sy'n cronni mewn cronfeydd alltraeth nad ydych wedi'i gael hyd yn hyn – mae'n rhaid i'r gronfa alltraeth roi fanylion yr incwm dynodadwy gormodol i gyfranogwyr

Peidiwch â chynnwys:

- dosbarthiadau a wnaed yn ystod datodiad cwmni tramor
- dosbarthiadau o gwmni tramor sy'n dychwelyd eich buddiant cyfalafol neu sydd ar ffurf ei stociau a'i gyfranddaliadau ei hun
- difidendau stoc neu gyfranddaliadau bonws o ddyroddiad difidendau stoc a wnaed gan gwmni dramor

Mae yna reolau penodol sy'n ymwneud â difidendau o gronfeydd alltraeth. Os yw'r gronfa wedi buddsoddi mwy na 60% mewn asedion sy'n dwyn llog, caiff unrhyw ddosbarthiad a gewch, neu a hysbysir i chi, eu trin fel llog a gafwyd. Mae angen i chi nodi hyn o dan 'Llog ac incwm arall o gynilion tramor'.

Os nad ydych yn siŵr a yw eich cyfranddaliadau mewn cronfa alltraeth, gofynnwch i'ch ymgynghorydd treth.

### Blwch 5

Llenwch golofnau A i F, ychwanegwch at ei gilydd y ffigurau a gofnodwyd yng ngholofn D, a rhowch y cyfanswm ym mlwch 5. Dylech gynnwys unrhyw symiau a ddangosir ar dudalennau ar wahân yr ydych yn eu hatodi i'r tudalennau 'Tramor'.

### Blwch 6

Llenwch golofnau A i F, ychwanegwch at ei gilydd y ffigurau a gofnodwyd yng ngholofn F, a rhowch y cyfanswm ym mlwch 6. Dylech gynnwys unrhyw symiau a ddangosir ar dudalennau ar wahân yr ydych yn eu hatodi i'r tudalennau 'Tramor'.

## Difidendau a gafwyd ar neu ar ôl 6 Ebrill 2016

Nid yw difidendau a gafwyd ar neu ar ôl 6 Ebrill 2016 yn gymwys bellach ar gyfer credyd treth difidend. O 6 Ebrill 2016 ymlaen, ni fyddwch yn talu treth ar yr incwm o ddifidend hyd at swm y lwfans difidend. Ar gyfer 2022 i 2023 y lwfans difidend yw £2,000. Byddwch yn talu treth ar ddifidendau sy'n fwy na'r lwfans difidend ar y cyfraddau canlynol:

- 8.75% ar incwm difidend o fewn yr haen gyfradd sylfaenol
- 33.75% ar incwm difidend o fewn yr haen gyfradd uwch
- 39.35% ar incwm difidend o fewn yr haen gyfradd ychwanegol

Dylech gynnwys yr incwm difidend i gyd, hyd yn oed os yw'n llai na £2,000, gan y gall effeithio ar y gyfradd dreth yr ydych yn ei thalu ar ddifidendau yr ydych yn eu cael sy'n fwy na'r lwfans, sef £2,000.

> I gael rhagor o wybodaeth ewch i www.gov.uk/treth-ar-ddifidendau

## Incwm o gynilion tramor a drosglwyddwyd

Os oes gennych unrhyw incwm o gynilion tramor a drosglwyddwyd sy'n cael ei drethu ar y sail trosglwyddo a'ch bod wedi trosglwyddo unrhyw ran o'r incwm o gynilion i'r DU ym mlwyddyn dreth 2022 i 2023, dylech gynnwys manylion yr incwm hwn yng ngholofnau A i F.

Sylwer – nid yw'r gyfradd gychwynnol ar gyfer cynilion na'r lwfans cynilion personol yn berthnasol i incwm o gynilion tramor a drosglwyddwyd.

### Blwch 7.1

Llenwch golofnau A i F. Os oes gennych incwm o fwy nag un wlad, dylech gynnwys tudalennau ar wahân gan gwblhau colofnau A i F, a'u hatodi i'r tudalennau 'Tramor'. Adiwch at ei gilydd y ffigurau a gofnodwyd yng ngholofn D, a rhowch y cyfanswm ym mlwch 7.1

### Blwch 7.2

Llenwch golofnau A i F. Os oes gennych incwm o fwy nag un wlad, dylech gynnwys tudalennau ar wahân gan gwblhau colofnau A i F, a'u hatodi i'r tudalennau 'Tramor'. Adiwch at ei gilydd y ffigurau a gofnodwyd yng ngholofn F, a rhowch y cyfanswm ym mlwch 7.2

## Incwm difidend tramor a drosglwyddwyd

Os oes gennych unrhyw incwm difidend tramor sy'n cael ei drethu ar y sail trosglwyddo a'ch bod wedi trosglwyddo unrhyw ran o'r incwm difidend i'r DU ym mlwyddyn dreth 2022 i 2023, dylech gynnwys manylion yr incwm hwn yng ngholofnau A i F.

Sylwer – nid yw'r cyfraddau difidend na'r lwfans difidend yn berthnasol i incwm difidend tramor a drosglwyddwyd.

### Blwch 7.3

Llenwch golofnau A i F. Os oes gennych incwm o fwy nag un wlad, dylech gynnwys tudalennau ar wahân gan gwblhau colofnau A i F, a'u hatodi i'r tudalennau 'Tramor'. Adiwch at ei gilydd y ffigurau a gofnodwyd yng ngholofn D, a rhowch y cyfanswm ym mlwch 7.3

### Blwch 7.4

Llenwch golofnau A i F. Os oes gennych incwm o fwy nag un wlad, dylech gynnwys tudalennau ar wahân gan gwblhau colofnau A i F, a'u hatodi i'r tudalennau 'Tramor'. Adiwch at ei gilydd y ffigurau a gofnodwyd yng ngholofn F, a rhowch y cyfanswm ym mlwch 7.4

### Blwch 7.5

Os cafwyd unrhyw rai o'ch difidendau am y tro cyntaf rhwng 5 Ebrill 2008 a 6 Ebrill 2016, ond os mai dim ond yn y flwyddyn dreth bresennol y cawsant eu trosglwyddo i'r DU, efallai y byddant yn gymwys ar gyfer y credyd treth difidend. Os ydynt yn gymwys, nodwch ym mlwch 7.5 swm trethadwy'r difidend cymwys a oedd wedi'i gynnwys ym mlwch 7.4.

## Incwm o gynilion a difidendau tramor nad yw wedi'i gwmpasu gan y sail trosglwyddo.

Mae rheol arbennig yn berthnasol os oedd gennych fwy na 5% o gyfranddaliadau neu warantau mewn cwmni caeedig yn y DU y gwnaethoch eu cyfnewid am swm cyfatebol o gyfranddaliadau neu warantau mewn cwmni y tu allan i'r DU ar neu ar ôl 17 Tachwedd 2022. Mae'r rheol hon yn trin incwm sy'n cael ei dalu ar warantau a ddelir yn y cwmni y tu allan i'r DU fel pe baent yn gyfranddaliadau neu'n warantau a ddelir mewn cwmni yn y DU.

Os ydych yn talu treth ar y sail trosglwyddo a bod y rheol arbennig hon yn berthnasol, peidiwch â chynnwys yr incwm hwn o gynilion a difidend yn yr adran hon o'ch Ffurflen Dreth.

Yn lle hynny, dylech gynnwys fanylion yr incwm hwn ym mlwch 40, 'Unrhyw wybodaeth arall', ar y dudalen, 'Preswylfa, sail trosglwyddo ac ati' (SA109)

Dylid cynnwys y canlynol:

- cyfanswm yr incwm difidend (mewn punnoedd y DU) cyn didynnu unrhyw dreth dramor neu Dreth Ataliedig Arbennig (TAA)
- cyfanswm y llog ar gynilion (mewn punnoedd y DU) cyn didynnu unrhyw dreth dramor neu Dreth Ataliedig Arbennig (TAA)
- swm y dreth dramor neu TAA a dalwyd
- y cod gwlad neu god tiriogaeth lle talwyd y dreth a chadarnhad eich bod yn hawlio'r rhyddhad credyd treth tramor ar yr incwm hwn, a bod gennych yr hawl i wneud hynny.

## Pensiynau, budd-daliadau nawdd cymdeithasol a breindaliadau tramor

Llenwch golofnau A i F os cawsoch bensiwn neu fudd-daliadau nawdd cymdeithasol o dramor yn ystod y flwyddyn dreth 2022 i 2023. Rhaid i chi hefyd gynnwys unrhyw bensiynau neu flwydd-daliadau (ond nid blwydd-daliadau bywyd a brynwyd) a dalwyd yn y DU oddi wrth ddarparwr pensiwn tramor. Hefyd, sicrhewch eich bod yn cynnwys cyfandaliadau o gynlluniau tramor sy'n drethadwy fel incwm pensiwn.

O dan y mwyafrif o CTD, bydd pensiwn a dalwyd oherwydd cyflogaeth yn y gorffennol dim ond yn drethadwy yn y wlad breswyl.  Fodd bynnag, mae rhai CTD yn nodi y gellir trethu pensiynau yn y wlad lle mae'r pensiwn yn codi, ac mae'n bwysig i wirio'r CTD perthnasol cyn hawlio RhCTD.

Os oes gennych bensiwn sydd ddim yn drethadwy yn y DU oherwydd CTD, rhowch fanylion llawn talwr y pensiwn, y pensiwn a'r CTD perthnasol yn y blwch 'Unrhyw wybodaeth arall' ar eich Ffurflen Dreth.

Peidiwch â chynnwys pensiynau na chyfandaliadau o gynlluniau tramor sydd wedi'u cofrestru yn y DU ar y dudalen hon. Dylid cynnwys y rhain yn yr adran 'Pensiynau, blwydd-daliadau a budd-daliadau eraill y Wladwriaeth a gafwyd o'r DU' ar dudalen TR 3 eich Ffurflen Dreth.

Os oedd eich pensiwn tramor yn cynnwys taliadau o flwyddyn dreth gynharach, gallwch osod y taliadau hynny yn erbyn y flwyddyn y maent yn perthyn iddi os yw'r pensiwn yn cael ei drethu ar y sail sy'n codi. Os nad ydych yn sicr p'un a fydd hyn o fantais i chi, gofynnwch i ni neu'ch ymgynghorydd treth.

### Didyniad o 10%

O 6 Ebrill 2017 ymlaen, byddwch yn talu treth ar 100% o'ch pensiwn, blwydd-dal neu fudd-daliadau diogelwch cymdeithasol tramor, yn hytrach na 90%, waeth pryd y dechreuoch eu cymryd. Mae'r didyniad o 10% wedi'i ddiddymu. Mae'n rhaid i chi roi gwybod i ni beth yw cyfanswm y pensiwn tramor, y blwydd-dal tramor neu'r budd-daliadau diogelwch cymdeithasol tramor a gawsoch.

### Eithriad

Caiff rhai pensiynau tramor eu heithrio'n gyfan gwbl neu'n rhannol rhag treth y DU.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- pensiynau gweddwon rhyfel, os oedd y farwolaeth tra'n aelod o'r lluoedd arfog cyn 6 Ebrill 2005, a rhai pensiynau a delir i ddibynyddion eraill personél ymadawedig y lluoedd arfog a'r Llynges Fasnachol
- pensiynau tramor sydd â dyfarniad oherwydd salwch sy'n gysylltiedig â'r gwaith neu anaf yn y gwaith – nid yw swm y dyfarniad yn drethadwy
- rhai pensiynau a blwydd-daliadau sy'n daladwy o dan gyfreithiau'r Almaen neu Awstria – os dechreuoch cael hwn yn ystod y flwyddyn dreth 2022 i 2023, atodwch gopi o'r dyfarniad pensiwn ('*Bescheid*') i'ch Ffurflen Dreth
- pensiynau a blwydd-daliadau sy'n daladwy o dan gynllun *Wet uitkeringen vervolgingsslachtoffers* 1940 i 1945 yr Iseldiroedd
- tyniadau incwm penodol gan fuddiolwyr, neu flwydd-daliadau a brynwyd o'r hyn a godir o gronfa pensiwn sydd heb ei ddefnyddio, neu arian a gyrchir yn hyblyg o gronfa pensiwn

> ℹ I gael rhagor o wybodaeth am etifeddu pensiwn, ewch i www.gov.uk/tax-on-pension-death-benefits

Os ydych yn ansicr p'un a yw eich pensiwn wedi ei eithrio rhag treth y DU, gofynnwch i ni neu'ch ymgynghorydd treth.

> ℹ I gael rhagor o wybodaeth am bensiynau gweddwon rhyfel a dibynyddion, ewch i www.gov.uk/war-widow-pension

### Hawlio eithriad

Os ydych yn hawlio RhCTD – nodwch yng ngholofn F, y swm sydd yng ngholofn B, llai'r eithriad – cofiwch roi 'X' yng ngholofn E.

Os nad ydych yn hawlio RhCTD – nodwch yng ngholofn F, y swm sydd yng ngholofn B, llai'r eithriad, a llai unrhyw swm sydd yng ngholofn C.

### Budd-daliadau nawdd cymdeithasol – a gafwyd o wlad arall

Peidiwch â chynnwys budd-daliadau tramor sy'n cyfateb i fudd-daliadau canlynol y DU:

- Budd-dal Analluogrwydd a delir yn ystod 28 wythnos gyntaf eich analluogrwydd neu os ydych wedi bod yn ei gael ar gyfer yr un salwch ers cyn 13 Ebrill 1995
- Lwfans Gweini
- Lwfans Byw i'r Anabl neu Lwfans Anabledd Difrifol
- Lwfans Mamolaeth
- Lwfans Gwarcheidwad
- Budd-dal Plant
- Credyd Cynhwysol

Dylech gynnwys pob budd-dal tramor arall. Os ydych yn ansicr ynghylch beth i'w gynnwys, gofynnwch i ni neu'ch ymgynghorydd treth.

### Blwch 8

Llenwch golofnau A i F, ychwanegwch at ei gilydd y ffigurau a gofnodwyd yng ngholofn D, a rhowch y cyfanswm ym mlwch 8. Dylech gynnwys unrhyw symiau a ddangosir ar dudalennau ar wahân yr ydych yn eu hatodi i'r tudalennau 'Tramor'.

### Blwch 9

Llenwch golofnau A i F, ychwanegwch at ei gilydd y ffigurau a gofnodwyd yng ngholofn F, a rhowch y cyfanswm ym mlwch 9. Dylech gynnwys unrhyw symiau a ddangosir ar dudalennau ar wahân yr ydych yn eu hatodi i'r tudalennau 'Tramor'.

## Difidendau a'r holl incwm arall a gafwyd gan berson sydd dramor

### Blychau 10 i 13

Os ydych wedi trosglwyddo, neu wedi cymryd unrhyw ran yn nhrosglwyddiad asedion, ac o ganlyniad daeth incwm yn daladwy i berson sydd dramor, efallai y bydd yn rhaid i chi lenwi blychau 10 i 13. Rhowch bob eitem sy'n drethadwy fel incwm o dan ddarpariaethau trosglwyddo asedion yn yr adran hon.

Os yw'r incwm a gafwyd gan y person sydd dramor yn 'incwm tramor a ddiogelwyd', peidiwch â nodi manylion yr incwm tramor a ddiogelwyd ym mlychau 10 i 13.2.

Darllenwch yr adran *'Trust protections and protected foreign income'* ar Daflen Wybodaeth 262, *'Income and benefits from transfers of assets abroad and income from non-resident trusts'*, am ragor o wybodaeth.

> ℹ Ewch i www.gov.uk a chwilio am 'HS262'.

### Rhyddhad am gostau ariannol preswyl

Nid oes modd hawlio'r costau o gael benthyciad neu drefniant ariannol arall er mwyn prynu eiddo preswyl sy'n cael ei osod, nac unrhyw log ar y benthyciadau hynny a'r taliadau ariannol eraill, fel didyniad i ostwng incwm o eiddo.

> ℹ I gael rhagor o wybodaeth am y cyfyngiad ar gostau ariannol eiddo preswyl, ewch i www.gov.uk/guidance/changes-to-tax-relief-for-residential-landlords-how-its-worked-out-including-case-studies

**Blwch 13.1  Swm yr incwm o eiddo preswyl neu gostau ariannol wedi'u cyfyngu sy'n gysylltiedig ag incwm ym mlwch 13 ar gyfer cyfrifo rhyddhad ar gyfer costau ariannol preswyl**

Mae'r costau o gael benthyciad neu drefniant ariannol arall er mwyn prynu eiddo preswyl sy'n cael ei osod, ac unrhyw log ar fenthyciad neu ar daliad ariannol arall o bob busnes eiddo preswyl a weithredir gan bobl sydd dramor, yn cael eu defnyddio fel sail wrth gyfrifo gostyngiad yn eich Treth Incwm. Defnyddiwch y daflen waith isod i gyfrifo'ch gostyngiad treth. Rhaid ystyried pob person ar wahân, a rhaid ystyried pob busnes eiddo y maent yn ei gynnal (er enghraifft eiddo'r DU ac eiddo tramor) ar wahân. Os yw busnes eiddo heb wneud unrhyw elw, neu wedi gwneud colled, rhowch sero yng ngholofn A. Os nad oedd ganddo gostau ariannol preswyl, rhowch sero yng ngholofn B.

Gall unrhyw gostau ariannol nas defnyddiwyd cael eu cario ymlaen i flynyddoedd dilynol.

Defnyddiwch y daflen waith isod er mwyn cyfrifo'ch gostyngiad treth.

| **Taflen waith ar gyfer blwch 13.1** | Colofn A<br>Elw o fusnes eiddo<br>£ | Colofn B<br>Costau ariannol eiddo preswyl<br>£ | Colofn C<br>Yr isaf o golofn A a cholofn B<br>£ | Costau ariannol nas defnyddiwyd sydd i'w cario ymlaen<br>£ |
|---|---|---|---|---|
| Enghraifft 1: Busnes eiddo tramor person A | 15,000 | 2,000 | 2,000 | 0 |
| Enghraifft 2: Busnes eiddo person A yn y DU | 3,000 | 4,000 | 3,000 | 1,000 |
| Busnes eiddo 1 | | | | |
| Busnes eiddo 2 | | | | |
| Busnes eiddo 3 | | | | |
| Busnes eiddo 4 | | | | |
| Busnes eiddo 5 | | | | |
| Cyfanswm colofn C - copïwch i flwch 13.1 | | | | |

**Blwch 13.2  Costau ariannol eiddo preswyl nas defnyddiwyd a ddygwyd ymlaen**

Mae swm y costau ariannol eiddo preswyl nas defnyddiwyd a ddygwyd ymlaen o flynyddoedd cynharach yn destun cyfyngiadau.

Ar gyfer pob busnes eiddo:

- os nad yw cyfanswm y costau ariannol eiddo preswyl nas defnyddiwyd a ddygwyd ymlaen ynghyd â chostau ariannol eiddo preswyl (a dalwyd yn ystod y flwyddyn) yn fwy na swm yr elw o'r eiddo, dylech gynnwys swm llawn y costau ariannol eiddo preswyl nas defnyddiwyd a ddygwyd ymlaen ym mlwch 13.2
- os yw cyfanswm y costau ariannol eiddo preswyl nas defnyddiwyd a ddygwyd ymlaen ynghyd â chostau ariannol eiddo preswyl (a dalwyd yn ystod y flwyddyn) yn fwy na swm yr elw o'r eiddo, dim ond ym mlwch 13.2 y gallwch gynnwys swm y costau ariannol eiddo preswyl nas defnyddiwyd sydd, o'u hychwanegu ynghyd â chostau ariannol eiddo preswyl a dalwyd yn ystod y flwyddyn, yn hafal i swm yr elw o'r eiddo

Gellir cario unrhyw falans o'r costau ariannol eiddo preswyl, sydd dal heb ryddhad, ymlaen i flynyddoedd i ddod yr un busnes eiddo.

## Incwm o dir ac eiddo tramor

Rydych yn agored i dreth ar swm eich incwm rhent tramor, hyd yn oed os nad ydych yn dod â'r incwm hwnnw i'r DU, oni bai eich bod yn hawlio'r sail drosglwyddo at ddibenion trethiant.

Os oedd cyfanswm eich incwm o eiddo'n llai na £1,000, neu os ydych am hawlio rhyddhad treth ar y £1,000 cyntaf, darllenwch 'Lwfans incwm o eiddo' ar dudalen FN 1.

Llenwch flychau 14 i 24.2, colofnau A i F, a blychau 25 i 32 os oes gennych unrhyw un o'r canlynol:

- dim ond un eiddo tramor ar osod
- mwy nag un eiddo, ond maent i gyd yn yr un wlad, a gellir trosglwyddo'r holl incwm
- mwy nag un eiddo, ac ni ddidynnir unrhyw dreth dramor o unrhyw incwm, a gellir trosglwyddo'r holl incwm

Os oes gennych fwy nag un eiddo tramor ar osod, ac maent mewn gwledydd gwahanol, ac rydych wedi talu treth dramor ar yr incwm rhent hwnnw, llungopïwch dudalennau F 4 ac F 5 a llenwch y blychau ar gyfer pob eiddo.

## Llety gwyliau wedi'i ddodrefnu yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE)

Llenwch dudalen F 4 a thudalen F 5 dim ond os ydych yn talu treth ar y sail trosglwyddo. Mae angen i chi ddangos yr holl symiau o incwm o dir ac eiddo tramor a drosglwyddir i'r DU, oni bai bod cyfanswm eich incwm o eiddo hyd at £1,000 ac rydych yn hawlio'r lwfans incwm o eiddo.

Darllenwch 'Lwfans incwm o eiddo' ar dudalen FN 1. Os ydych am hawlio Rhyddhad Credyd Treth Dramor, llenwch yr adran 'Treth dramor a dalwyd ar gyflogaeth, hunangyflogaeth ac incwm arall' ar dudalen F 6. Sicrhewch mai'r dreth tramor sy'n cael ei hawlio yw'r 'isafswm' sy'n ddyledus o dan gyfraith y wlad dramor ar ôl i'r holl ddidyniadau, eithriadau, rhyddhad a lwfansau cael eu hawlio.

Peidiwch â chynnwys incwm o osod llety gwyliau wedi'i ddodrefnu yn fasnachol yn yr AEE sydd wedi'i gyfrifo ar y sail sy'n codi. Mae hyn yn mynd ar y tudalennau 'Eiddo yn y DU'.

> ℹ I gael rhagor o wybodaeth am lety gwyliau wedi'i ddodrefnu, ewch i www.gov.uk a chwiliwch am 'HS253'.
>
> I gael rhagor o wybodaeth am y sail drosglwyddo, ewch i www.gov.uk a chwiliwch am 'HS264'.

## Incwm a threuliau

**Blwch 14  Cyfanswm y rhenti a derbyniadau eraill (ac eithrio premiymau trethadwy am ganiatáu prydles)**

Nodwch gyfanswm unrhyw renti, neu dderbyniadau eraill, a gewch o unrhyw hawliau neu fuddiannau sydd gennych mewn tir neu eiddo a leolwyd dramor, ym mlwch 14.

## Taliadau drwy gynllun cymorth yn sgil coronafeirws

Mae taliadau drwy gynllun cymorth yn sgil coronafeirws yn drethadwy, ac maent yn cynnwys taliadau drwy'r Cynllun Cadw Swyddi yn sgil Coronafeirws (CJRS), unrhyw gynllun cymorth perthnasol arall gan CThEF yn sgil coronafeirws, a thaliadau yr oedd gennych hawl i'w cael gan awdurdodau lleol neu weinyddiaethau datganoledig.

Os cawsoch daliadau cymorth yn sgil coronafeirws, dylech gynnwys ym mlwch 14 y swm a gawsoch.

Os ydych wedi cael asesiad oddi wrth swyddog CThEF mewn perthynas â thaliad drwy gynllun cymorth yn sgil coronafeirws a hawliwyd yn anghywir, dylech gynnwys ym mlwch 14 y swm a gadwyd gennych yn unig.

Peidiwch â chynnwys ym mlwch 14 unrhyw swm sydd wedi'i asesu ac sy'n arwain at ad-dalu taliadau drwy gynlluniau cymorth yn sgil coronafeirws nad oedd gennych hawl iddynt.

Peidiwch â chynnwys taliadau CJRS a gafwyd fel cyflogai tra oeddech ar ffyrlo.

Os cawsoch daliad CJRS, neu daliad o unrhyw gynllun cymorth perthnasol arall gan CThEF yn sgil coronafeirws, nad oedd gennych hawl iddo a'ch bod heb ei ad-dalu'n wirfoddol i CThEF neu nad ydych wedi cael asesiad oddi wrth swyddog CThEF am y

taliad a hawliwyd yn anghywir, nodwch y swm a hawliwyd yn anghywir ar dudalen TR 5 y brif Ffurflen Dreth, sef y SA100.

Peidiwch â chynnwys unrhyw bremiymau trethadwy yma. Nodwch y rhain ym mlwch 16. Darllenwch 'Lwfans incwm o eiddo' ar dudalen FN 1 cyn llenwi'r blwch hwn. Os ydych yn defnyddio'r sail arian parod, eich incwm yw'r cyfanswm a gawsoch yn ystod y flwyddyn (gweler blwch 14.2).

### Blwch 14.1 Lwfans incwm o eiddo

Darllenwch 'Lwfans incwm o eiddo' ar dudalen FN 1 cyn llenwi'r blwch hwn.

Os yw'ch incwm o eiddo yn fwy na £1,000 ac rydych yn hawlio lwfans incwm o eiddo, ni all cyfanswm y lwfans a hawliwyd o bob busnes eiddo (mae hyn yn cynnwys busnesau gosod llety gwyliau wedi'i ddodrefnu yn y DU neu AEE neu fusnes eiddo yn y DU) fod yn fwy na £1,000. Os ydych yn hawlio lwfans incwm masnachu, ni allwch hawlio unrhyw dreuliau neu lwfansau eraill.

### Blwch 14.2 Cyfrifyddu traddodiadol neu'r sail arian parod

Rhowch 'X' ym mlwch 14.2 dim ond os gwnaethoch ddefnyddio cyfrifyddu traddodiadol yn hytrach na'r sail arian parod i gyfrifo'ch incwm a threuliau.

Mae'r sail arian parod yn ffordd symlach o gyfrifo elw neu golledion eich busnes eiddo. Rydych yn ychwanegu'ch holl incwm o eiddo a gafwyd yn ystod y flwyddyn dreth (eich trosiant) ac yn tynnu unrhyw dreuliau caniataol a dalwyd yn ystod y flwyddyn. Os ydych yn defnyddio sail arian parod, ni allwch hawlio lwfansau cyfalaf. Peidiwch â chynnwys arian sydd arnoch neu sy'n ddyledus i chi ar ôl 5 Ebrill 2023.

Gallwch ddefnyddio'r sail arian parod dim ond os yw cyfanswm eich incwm o eiddo tramor (gan gynnwys llety gwyliau wedi'i ddodrefnu yn yr AEE) yn £150,000 neu'n llai.

Os oes gennych incwm o eiddo tramor ac o osod llety gwyliau wedi'i ddodrefnu yn yr AEE, rhaid i chi ddefnyddio'r un arfer cyfrifyddu ar gyfer y ddau incwm. Mae'n rhaid i flwch 14.2 a blwch 5.2 ar y dudalen 'Eiddo yn y DU' fod naill ai'n bresennol neu'n absennol.

> ℹ I gael rhagor o wybodaeth am y sail arian parod, ewch i www.gov.uk/guidance/income-tax-when-you-rent-out-a-property-working-out-your-rental-income

### Addasiadau trawsnewidiol

Os ydych yn newid dulliau cyfrifyddu ar gyfer y flwyddyn dreth 2022 i 2023, mae'n bosibl y bydd yn rhaid i chi wneud addasiad trawsnewidiol.

Rhaid cynnwys bob derbynneb drawsnewidiol ym mlwch 14 a'r holl dreuliau trawsnewidiol ym mlwch 17.

### Blwch 16 Premiymau a dalwyd am ganiatáu prydles

Os talwyd premiymau i chi am ganiatáu prydles a roddwyd mewn perthynas â'r hawl i feddiannu eiddo, nodwch y swm a gafwyd ym mlwch 16. Cyn i chi lenwi'r blwch hwn, efallai y bydd yn rhaid i chi lenwi'r daflen waith ar gyfer premiymau am ganiatáu prydles, yn y nodiadau 'Eiddo yn y DU'.

> ℹ I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/government/publications/self-assessment-uk-property-sa105.cy

### Blwch 17 Treuliau eiddo caniataol (rhent, atgyweiriadau, ffioedd cyfreithiol, costau gwasanaethau a ddarparwyd)

Gallwch hawlio treuliau megis:

- rhenti, trethi, yswiriant, rhenti tir
- atgyweiriadau a chynnal a chadw'r eiddo
- ffioedd cyfreithiol, rheolaeth a ffioedd proffesiynol
- llog a thaliadau ariannol eraill ar eiddo ddibreswyl
- costau o wasanaethau a ddarparwyd, gan gynnwys cyflogau (dylech gynnwys cyflogau a ariannwyd drwy'r Cynllun Cadw Swyddi yn sgil Coronafeirws ac a dalwyd i gyflogeion)
- treuliau eraill yr eiddo

Ni allwch ddidynnu'r treuliau canlynol:

- treuliau yr eir iddynt mewn perthynas â gosod eiddo am y tro cyntaf neu ailosod eiddo, megis cost llunio prydles, ffioedd a chomisiwn asiantau a thirfesurwyr
- costau yn ymwneud â chytuno a thalu premiymau ar adnewyddu prydles
- ffioedd ar gyfer caniatâd cynllunio neu gofrestru teitl wrth brynu eiddo
- ar gyfer y gost o osod eitemau domestic yn lle hen rai, megis dodrefn, eitemau dodrefnu, offer ar gyfer y tŷ a chyfarpar ar gyfer y gegin – defnyddiwch flwch 23 i hawlio rhyddhad amnewid eitemau domestig mewn anheddau
- os oes angen i chi roi cyfrif am daliad mantoli oherwydd y gwnaethoch hawlio lwfansau cyfalaf yn ystod blynyddoedd blaenorol ar ased rydych wedi'i waredu yn ystod y flwyddyn hon, ewch i flwch 20. Fel arall, ewch i flwch 24

Peidiwch â chynnwys cost prynu neu werthu, neu welliannau neu newidiadau, i dir neu eiddo, cyfarpar, eitemau dodrefnu neu ddodrefn. Lwfansau cyfalaf yw'r rhain, a dylid eu cynnwys ym mlwch 21.

### Eiddo dibreswyl

Gallwch hawlio'r costau o gael benthyciad neu drefniant ariannol arall i brynu eiddo dibreswyl rydych yn ei osod, a swm llawn unrhyw log ar fenthyciad o'r fath neu daliadau ariannol eraill.

### Eiddo preswyl

Ni allwch hawlio'r costau o gael benthyciad neu drefniant ariannol arall er mwyn prynu eiddo preswyl sy'n cael ei osod, nac unrhyw log ar fenthyciad o'r fath neu ar daliadau ariannol eraill.

> I gael rhagor o wybodaeth am costau ariannol eiddo preswyl, ewch i www.gov.uk/guidance/changes-to-tax-relief-for-residential-landlords-how-its-worked-out-including-case-studies

## Cyfrifo elw a cholledion at ddibenion treth

### Blwch 19 Addasiad ar gyfer defnydd preifat

Os ydych wedi nodi unrhyw symiau ym mlwch 17 nad oeddent yn gyfan gwbl ar gyfer y busnes eiddo, nodwch y gyfran breifat (di-fusnes) ym mlwch 19. Er enghraifft, os ydych yn cynnwys y gost o yswirio'r eiddo am flwyddyn ym mlwch 17, a gwnaethoch ei osod am 8 mis yn unig, nodwch y gost di-fusnes ar gyfer y 4 mis ym mlwch 19.

### Blwch 20 Taliadau mantoli

Mae'n bosibl y bydd taliadau mantoli'n codi yn dilyn digwyddiad gwaredu neu fantoli, megis gwerthu, colli neu ddinistrio asedion neu wrth ddod â'r defnydd busnes i ben, lle mae'r derbyniadau o'r digwyddiad yn fwy na'u gwerth treth. Os gwerthwch eitem rydych wedi hawlio lwfansau cyfalaf ar ei chyfer, a bod derbyniadau'r gwerthiant neu werth yr eitem yn fwy na gwerth neu gost y gronfa, bydd yn rhaid i chi dalu treth ar y gwahaniaeth (sef 'tâl mantoli'). Mae hyn yn cynnwys eitemau lle mae gwerth y gronfa yn ddim oherwydd eich bod wedi hawlio'r holl gost yn flaenorol. Rhowch gyfanswm y tâl mantoli ym mlwch 20.

### Blwch 21 Lwfansau cyfalaf ar gyfer cyfarpar a cherbydau

Gallwch hawlio lwfansau cyfalaf ar gyfer costau prynu a gwella cyfarpar megis:

- faniau a cheir
- offer a chyfrifiaduron
- silffoedd, dodrefn a gosodiadau trydanol
- strwythurau ac adeiladau penodol

Mae'r math o lwfans cyfalaf a'r swm y gallwch ei hawlio yn dibynnu ar yr asedion sydd gennych ac amgylchiadau eraill, er enghraifft, mae rheolau arbennig ar gyfer ceir.

Nid yw gwariant yr aed iddo wrth ddarparu, neu ganiatáu prydles arbennig ar gyfer, offer neu beiriannau i'w defnyddio mewn tŷ annedd yn wariant cymwys ar gyfer lwfansau cyfalaf ar gyfer busnes eiddo yn y DU neu fel busnes eiddo tramor, ar wahân i lety gwyliau wedi'i ddodrefnu.

Ni allwch hawlio lwfansau cyfalaf os ydych yn hawlio'r lwfans incwm o eiddo (ym mlwch 14.1) neu'n defnyddio'r sail arian parod.

Yr unig eithriad i'r rheiny sy'n defnyddio'r sail arian parod (ac nad ydynt yn hawlio'r lwfans incwm o eiddo) yw ceir. Os ydych wedi hawlio lwfansau cyfalaf yn flaenorol ar gyfer car a ddefnyddir yn eich busnes, gallwch barhau i hawlio'r lwfans ym mlwch 21.

Dylech gynnwys unrhyw ran o'r costau rhedeg sy'n ymwneud â'r busnes fel treuliau busnes caniataol ym mlwch 17. Ni allwch ddefnyddio cyfraddau unffurf. Os nad ydych erioed wedi hawlio lwfansau cyfalaf ar gyfer y car, gallwch ddewis i ddefnyddio'r gyfradd unffurf, neu hawlio lwfansau cyfalaf.

> I gael rhagor o wybodaeth am lwfansau cyfalaf, ewch i www.gov.uk/business-tax/capital-allowances

### Darnau Gosod

Mae yna reolau ar gyfer hawlio lwfansau cyfalaf os byddwch yn prynu neu'n gwerthu eiddo sydd â darnau gosod (er enghraifft, gosodiadau i'r gegin, systemau trydanol neu systemau gwresogi).

Fel arfer byddai'r prynwr yn cael ei rwystro rhag hawlio lwfansau cyfalaf oni bai bod y gwerthwr a'r prynwr yn cytuno'n ffurfiol ar y rhan o'r pris prynu sydd i'w phriodoli i'r darnau gosod hynny.

Dylai fod cytundeb rhyngoch, sydd fel arfer wedi ei wneud drwy gyfrwng dewis ar y cyd (a elwir yn ddewis 'adran 198'). Mae'n rhaid i chi roi gwybod i Gyllid a Thollau EF am hyn cyn pen 2 flynedd o'r dyddiad trosglwyddo.

O fis Ebrill 2014 ymlaen, os ydych yn prynu neu'n gwerthu eiddo, ni fydd y perchennog newydd yn gallu hawlio lwfansau ar gyfer ddarnau gosod, os na chronnodd y perchennog blaenorol ei wariant cymwys ar y darnau gosod.

### Blwch 21.1 Lwfans car ag allyriadau sero

Hawliwch y lwfans blwyddyn gyntaf o 100% (y gost lawn) ar gyfer unrhyw gar newydd a heb ei ddefnyddio, sydd ag allyriadau sero neu sy'n drydanol, yn y blwch hwn.

Os ydych yn defnyddio car y tu allan i'ch busnes, mae'n rhaid i chi hawlio'r gyfran sydd at ddibenion busnes yn unig.

### Blwch 22 Lwfans allyriadau sero ar gyfer cerbyd cario nwyddau

Hawliwch y lwfans blwyddyn gyntaf o 100% (y gost lawn) ar gyfer unrhyw gerbyd cario nwyddau newydd a heb ei ddefnyddio, sydd ag allyriadau sero, yn y blwch hwn.

Os ydych yn defnyddio cerbyd y tu allan i'ch busnes, am 20% o'r amser, er enghraifft, mae'n rhaid i chi ostwng swm yr hawliad gan swm cyfatebol, a fydd yn 20% yn yr enghraifft hon.

### Blwch 22.1 Y Lwfans Strwythurau ac Adeiladau

Os ydych yn gymwys i hawlio'r Lwfans Strwythurau ac Adeiladau (SBA) newydd, rhowch swm yr hawliad ym mlwch 22.1. Os ydych yn hawlio am y tro cyntaf ar gyfer

swm o wariant cymwys, defnyddiwch y blwch 'Unrhyw wybodaeth arall', sef blwch 19 ar dudalen 7 eich Ffurflen Dreth, er mwyn cofnodi'r canlynol:

- y dyddiad daeth yr adeilad i ddefnydd cymwys am y tro cyntaf neu, os yw'n hwyrach, dyddiad y gwariant cymwys
- cyfanswm y gwariant gymwys

I weld a allwch hawlio, ac os felly faint, ewch i www.gov.uk/guidance/claiming-capital-allowances-for-structures-and-buildings.cy

### Blwch 22.2 Lwfans pwynt gwefru

Gallwch hawlio y lwfans blwyddyn gyntaf o 100% am wariant a fuddsoddwyd wrth gaffael a gosod pwyntiau gwefru newydd a heb eu defnyddio ar gyfer cerbydau trydan. Rhowch swm y gwariant ym mlwch 22.2.

### Blwch 23 Y gost o osod eitemau domestig newydd yn lle hen rai (ar gyfer llety preswyl yn unig)

Gallwch hawlio'r gost o osod eitemau domestig yn lle hen rai yn y llety preswyl pan fo'r canlynol yn gymwys:

- telir y gost wrth brynu eitem ddomestig newydd i'w rhoi yn lle hen un – ni allwch hawlio'r gost gychwynnol ar gyfer eitem a ddarparwyd i'w defnyddio mewn llety am y tro cyntaf
- darparir yr eitem newydd at ddefnydd y tenantiaid yn y llety yn unig, ac nid yw'r hen eitem bellach ar gael i'w defnyddio

Os yw'r eitem newydd yn well na'r hen eitem, gallwch ond hawlio hyd at y swm sydd ei angen i gymryd lle'r eitem wreiddiol.

Dylech gynnwys eitemau megis:

- dodrefn symudol, er enghraifft gwelyau, cwpwrdd dillad sy'n sefyll ar ei ben ei hun
- eitemau dodrefnu, er enghraifft llenni, lleiniau, carpedi, gorchuddion llawr
- offer ar gyfer y tŷ, er enghraifft teledu, oergell, rhewgell
- cyfarpar cegin, er enghraifft llestri, cyllyll a ffyrc

Ni allwch hawlio lwfansau cyfalaf os ydych yn hawlio'r lwfans incwm o eiddo (ym mlwch 14.1).

### Blwch 24 Elw neu golled wedi'i addasu/haddasu ar gyfer y flwyddyn

Ychwanegwch flychau 18, 19 a 20 at ei gilydd. Yna, didynnwch flychau 21, 22 a 23 a nodwch y cyfanswm ym mlwch 24.

Os yw hwn yn swm negyddol (colled), rhowch arwydd minws yn y blwch tywyll o flaen eich ffigur.

Os ydych yn hawlio lwfans incwm o eiddo, dim ond ym mlychau 14, 16 a 20 y gallwch gofnodi. Ychwanegwch y symiau hyn at ei gilydd, didynnwch y swm ym mlwch 14.1 a rhowch y cyfanswm ym mlwch 24. Ni all hyn fod yn golled.

**24** Elw neu golled a addaswyd am y flwyddyn (blychau 18 i 20) llai (blychau 21 i 23)

£ – 1 8 7 0 0 · 0 0

Enghraifft o elw wedi'i addasu, blwch 24

### Blwch 24.1 Costau ariannol eiddo preswyl

Mae'r costau o gael benthyciad neu drefniant ariannol arall er mwyn prynu eiddo preswyl, ac unrhyw log ar fenthyciad o'r fath neu ar daliadau ariannol eraill, yn gallu cael eu defnyddio wrth gyfrifo gostyngiad yn swm eich Treth Incwm.

Nodwch swm unrhyw gostau, llog a thaliadau ariannol eraill ym mlwch 24.1.

### Blwch 24.2 Costau ariannol eiddo preswyl nas defnyddiwyd a ddygwyd ymlaen

Rhowch unrhyw gostau ariannol preswyl nas defnyddiwyd o'r busnes eiddo hwn o flynyddoedd cynharach ym mlwch 24.2. Gellir cario unrhyw falans o'r costau ariannol preswyl, sydd dal heb ryddhad, ymlaen i flynyddoedd i ddod o'r un busnes eiddo.

ⓘ I gael rhagor o wybodaeth am y cyfyngiad ar gostau ariannol eiddo preswyl, ewch i www.gov.uk/guidance/changes-to-tax-relief-for-residential-landlords-how-its-worked-out-including-case-studies

## Crynodeb

Dylech lenwi'r adran hon os ydych yn cael unrhyw incwm o dir ac eiddo tramor. Does dim rhaid i chi wneud hyn os ydych wedi hawlio'r sail drosglwyddo ond heb drosglwyddo unrhyw beth yn ystod y flwyddyn.

ⓘ I gael rhagor o wybodaeth am sail drosglwyddo, ewch i www.gov.uk a chwiliwch am 'HS264'.

Os gwnaethoch lenwi dim ond un set o flychau 14 i 24.2, copïwch y ffigur o flwch 24 i flwch 25 a llenwch y colofnau A i F.

Os gwnaethoch lungopïo tudalennau F 4 ac F 5, oherwydd roedd gennych fwy nag un eiddo tramor ar osod, bydd yn rhaid i chi adio at ei gilydd elw a cholledion eich holl eiddo ar osod i gyfrifo'r cyfanswm cyflawn.

Os ydych yn hawlio RhCTD, bydd yn rhaid i chi gadw cyfrifiannau elw a cholled ar wahân ar gyfer pob eiddo, er mwyn cyfrifo swm treth y DU a briodolir i bob eiddo penodol.

## Colledion

Dylech ond lenwi blychau 26, 27, 31 a 32 os ydych yn talu treth ar y sail sy'n codi.

Os ydych yn hawlio Rhyddhad Credyd Treth Dramor ac mae yna golledion ar gael, dylech ddidynnu'r colledion yn y drefn sydd fwyaf manteisiol i'ch cais chi.

## Colofn A

Defnyddiwch y rhestr sydd ar dudalennau FN 3 i FN 5 y nodiadau hyn er mwyn dod o hyd i'r cod 3 llythyren ar gyfer y wlad lle mae eich incwm o osod tir neu eiddo wedi codi.

Os oes gennych eiddo mewn mwy nag un wlad ond rydych ond yn llenwi un set o flychau 14 i 24, nodwch god y wlad yr eiddo cyntaf yng ngholofn A a'r codau ar gyfer y lleill yn 'Unrhyw wybodaeth arall' ar dudalen TR 7 eich Ffurflen Dreth.

## Colofn B

Nodwch swm yr elw neu'r golled o'ch eiddo ar osod yng ngholofn B.

## Colofn C

Nodwch swm unrhyw dreth dramor a dalwyd ar yr incwm a gafwyd o'ch eiddo yng ngholofn C.

## Colofn D

Nodwch swm treth y DU a ddidynnwyd yng ngholofn D.

## Colofn E

Rhowch 'X' yn y blwch os ydych am hawlio Rhyddhad Credyd Treth Dramor (RhCTD).

## Colofn F

Os ydych yn hawlio RhCTD, a bod ffigur elw yng ngholofn B, nodwch y ffigur hwnnw yng ngholofn F. Os nad ydych yn hawlio RhCTD, y ffigur fydd y swm yng ngholofn B, llai unrhyw swm yng ngholofn C.

Os ydych yn hawlio RhCTD a bod gennych elw a cholledion o fwy nag un eiddo tramor, gostyngwch yr elw wrth swm colled yn y drefn fwyaf manteisiol i chi ar gyfer eich hawliad RhCTD. Yna nodwch yr elw wedi'i addasu o bob eiddo yng ngholofn F.

Os oes colled yn codi o unrhyw eiddo tramor, peidiwch â llenwi blychau colofn F.

### Blwch 26 Cyfanswm y golled a ddygwyd ymlaen o flynyddoedd cynharach

Rhowch ym mlwch 26 swm unrhyw golledion nas defnyddiwyd o flynyddoedd cynharach (blwch 32 ar eich tudalennau 'Tramor' ar gyfer y flwyddyn dreth 2021 i 2022).

Gallwch ddefnyddio hwn i ostwng cyfanswm eich elw neu i gynyddu cyfanswm eich colled. Os yw unrhyw ran o'r swm a roddwyd ym mlwch 26 heb ei nodi eisoes, rhaid i chi nodi'r manylion yn y blwch 'Unrhyw wybodaeth arall', sef blwch 19 ar dudalen TR 7 eich Ffurflen Dreth.

### Blwch 27 Cyfanswm yr elw trethadwy

Os mai elw yw'r ffigur a gofnodwyd ym mlwch 25, didynnwch unrhyw golledion sydd ym mlwch 26 ac rydych am eu gwrthbwyso yn erbyn eich elw (hyd at y swm ym mlwch 25) a nodwch y canlyniad yma. Gadewch flwch 27 yn wag os yw'r ffigur ym mlwch 25 yn negyddol (colled).

### Blychau 28 a 29

Llenwch golofnau A i F, ychwanegwch at ei gilydd y ffigurau yn:

- colofn C a nodwch ffigur cyfanswm y dreth dramor ym mlwch 28
- colofn D a nodwch gyfanswm treth y DU ym mlwch 29

Dylech gynnwys unrhyw symiau a gofnodir ar atodlenni ar wahân yr ydych yn eu hatodi i'r tudalennau 'Tramor'.

### Blwch 30 Cyfanswm trethadwy

Ychwanegwch at ei gilydd yr holl ffigurau a nodwyd yng ngholofn F, gan gynnwys rhai a ddangosir ar unrhyw atodlen ar wahân, ac yna didynnwch unrhyw golledion sydd ym mlwch 26 yr ydych am eu gwrthbwyso yn erbyn y cyfanswm. Rhowch y canlyniad ym mlwch 30 (nodwch '0' os yw'r canlyniad yn ffigur minws).

### Blwch 31 Colled a wrthbwyswyd yn erbyn cyfanswm yr incwm

O dan rai amgylchiadau, gallwch wrthbwyso colled yn erbyn cyfanswm eich incwm ar gyfer blwyddyn dreth 2022 i 2023 os yw'r golled yn codi o ganlyniad i'ch hawliad am lwfansau cyfalaf. Mae'n rhaid i unrhyw golled sydd i'w gwrthbwyso fod yn un o'r canlynol, p'un bynnag yw'r lleiaf:

- unrhyw lwfans cyfalaf ym mlychau 21 i 22.2, ar ôl didynnu unrhyw daliadau mantoli ym mlwch 20
- y golled wedi'i haddasu ym mlwch 24
- swm eich incwm arall

Mae swm y rhyddhad treth y gallwch ei hawlio yn erbyn cyfanswm eich incwm bob blwyddyn hefyd wedi'i gyfyngu i naill ai £50,000 neu 25% o'ch cyfanswm incwm addasedig, p'un bynnag yw'r mwyaf.

Os na allwch ddefnyddio eich holl golledion ar gyfer y flwyddyn dreth 2022 i 2023, gallwch gario'r balans ymlaen drwy lenwi blwch 32. Y terfyn amser ar gyfer hawlio yw 31 Ionawr 2025.

> ℹ I gael rhagor o wybodaeth am y terfyn ar ryddhad Treth Incwm, ewch i www.gov.uk a chwiliwch am 'HS204'.

**Blwch 32 Cyfanswm y golled i'w chario ymlaen i'r flwyddyn ddilynol**

Os gwnaethoch elw net, mae swm positif ym mlwch 25. Nodwch ym mlwch 32 gyfanswm y golled a ddygwyd ymlaen o flwch 26, llai unrhyw ran o'r golled hwnnw a wrthbwyswyd yn erbyn yr elw ym mlwch 25.

Os gwnaethoch golled net, mae swm negyddol ym mlwch 25. Nodwch ym mlwch 32, gyfanswm y golled ym mlwch 25, yn ogystal ag unrhyw golledion a ddygwyd ymlaen o flynyddoedd cynharach (blwch 26), llai unrhyw swm a wrthbwyswyd yn erbyn cyfanswm yr incwm (blwch 31). Y terfyn amser ar gyfer hawlio hyn yw 5 Ebrill 2027.

Bydd angen y ffigur ym mlwch 32 arnoch er mwyn llenwi'r tudalennau 'Tramor' ar Ffurflen Dreth y flwyddyn nesaf.

## Treth dramor a dalwyd ar gyflogaeth, hunangyflogaeth ac incwm arall

Llenwch yr adran hon os ydych yn hawlio Rhyddhad Credyd Treth Dramor (RhCTD) ar incwm neu enillion a gofnodwyd mewn man arall ar eich Ffurflen Dreth, gan gynnwys incwm o lety gwyliau wedi'i ddodrefnu mewn gwlad yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE).

Os ydych wedi talu treth dramor ar eich incwm o gyflogaeth, a thelir am hyn gan gyflogwr dramor sydd heb gyflogres y DU (nid ydych wedi cael P60), mae'n rhaid i chi lenwi'r dudalen 'Cyflogaeth' er mwyn rhoi gwybod am eich incwm gros.

Sicrhewch mai'r dreth dramor sy'n cael ei hawlio yw'r 'isafswm' sy'n ddyledus o dan gyfraith y wlad dramor ar ôl i'r holl ddidyniadau, eithriadau, rhyddhad a lwfansau cael eu hawlio. Er enghraifft, os ydych yn gweithio i gwmni Prydeinig dramor.

Pan fo cyflogwr yn talu'r dreth dramor ar eich rhan, yn gyffredinol dylid cynnwys hyn fel rhan o'ch cyflog gros. Os nad ydych yn siŵr, gofynnwch i'ch ymgynghorydd treth.

Os ydych yn cael incwm drwy fod yn aelod o Lloyd's, gweler Taflen Gymorth 240, *'Lloyd's underwriters'*, am arweiniad ar sut i lenwi'r rhan hon o'r tudalennau 'Tramor'.

> ℹ I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk a chwiliwch am 'HS240'.

## Colofn A – Cod gwlad

Defnyddiwch y rhestr ar dudalennau FN 3 i FN 5 y nodiadau hyn i ddod o hyd i god 3 llythyren y wlad o ble deilliodd eich incwm a lle didynnwyd treth dramor. Nodwch y cod hwnnw yng ngholofn A. Defnyddiwch res wahanol ar gyfer pob gwlad.

## Colofn C – Treth dramor a dalwyd

Os didynnwyd unrhyw dreth dramor o'ch incwm, nodwch swm y dreth (mewn punnoedd y DU) yng ngholofn C. Peidiwch â chynnwys treth dramor a dalwyd ar bremiymau gofal iechyd na chyfraniadau nawdd cymdeithasol dramor yn y swm hwn o dreth.

## Colofn F – Swm trethadwy

Nodwch swm gros yr incwm tramor (cyn didynnu unrhyw dreth) a gofnodwyd gennych mewn man arall (er enghraifft, ar y tudalennau 'Cyflogaeth') yng ngholofn F. Bydd angen i chi rhoi manylion yr incwm hwn i ni yn 'Unrhyw wybodaeth arall' ar dudalen TR 7 eich Ffurflen Dreth.

Os oes gennych fusnes yn y DU ac mae derbyniadau gros y busnes yn cynnwys incwm yr ydych wedi talu treth dramor arno, bydd yn rhaid i chi gyfrifo swm yr elw a ddaeth o dderbyniadau tramor. Os yw'r incwm yn deillio o gangen tramor busnes a sefydlwyd yn y DU, nodwch yr elw gros a enillwyd gan y gangen yng ngholofn F.

Mewn rhai achosion, os yw cyfnod sail eich busnes ar gyfer y flwyddyn dreth 2022 i 2023 yn gorgyffwrdd â'ch cyfnod sail ar gyfer y flwyddyn dreth 2021 i 2022, efallai y gallwch hawlio RhCTD.

> ℹ I gael rhagor o wybodaeth am orgyffwrdd, ewch i www.gov.uk a chwiliwch am 'HS260'.

## Enillion cyfalaf – Rhyddhad Credyd Treth Dramor a Threth Ataliedig Arbennig

**Blychau 33 i 40**

Os oes gennych ennill y didynnwyd treth dramor ohono, ac rydych am hawlio Rhyddhad Credyd Treth Dramor (RhCTD), llenwch flwch 33 a blychau 37 i 40 (mewn punnoedd y DU) fel y bo'n briodol. Peidiwch â llenwi blychau 34 i 36.

Os oes gennych fwy nag un ennill, rhowch yr wybodaeth hon ar dudalen ar wahân. Dylech gynnwys ym mlychau 33, 37, 39 a 40, unrhyw symiau a nodwyd gennych ar y dudalen ar wahân.

Os ydych am hawlio RhCTD, rhowch 'X' ym mlwch 38. Does dim rhaid i chi gyfrifo'r RhCTD eich hun. Os byddwch am ei gyfrifo, defnyddiwch Daflen Gymorth 261, *'Foreign Tax Credit Relief: capital gains'*, i'ch helpu. Nodwch y swm yr ydych yn ei hawlio ym mlwch 39.

Os ydych yn drethadwy ar y sail drosglwyddo, a bod gan yr enillion a drosglwyddwyd o werthiant sy'n agored i Dreth Enillion Cyfalaf Dreth Ataliedig Arbennig wedi'i thynnu oddi arnynt, rhowch swm y Dreth Ataliedig Arbennig ym mlwch 40.

Treth a ddidynnir oddi ar rai taliadau i breswylwyr y DU (yn ychwanegol i dreth dramor) yw Treth Ataliedig Arbennig. Gellir ei gosod yn erbyn eich rhwymedigaeth treth y DU neu ei had-dalu i chi os yw'r cyfanswm yn fwy na'ch rhwymedigaeth ar gyfer y flwyddyn honno. Bydd hyn ond yn berthnasol bellach os ydych yn drethadwy ar y sail drosglwyddo ac yn trosglwyddo

incwm sy'n gysylltiedig â blynyddoedd cynharach pan gafodd Treth Ataliedig Arbennig ei hatal. Gweithredir TAA gan y tiriogaethau canlynol: Andorra, Awstria, Curaçao, Gibraltar, Jersey, Liechtenstein, Lwcsembwrg, Monaco, San Marino, Sint Maarten a'r Swistir.

Rhowch y canlynol yn y blwch 'Gwybodaeth ychwanegol', sef blwch 19 ar dudalen TR 7 eich Ffurflen Dreth:

- y wlad lle talwyd y dreth dramor
- enw'r dreth dramor a ddidynnwyd neu enw'r cytundeb y didynnwyd y dreth dramor oddi tano
- y blynyddoedd pan ddidynnwyd y dreth dramor y mae'r hawliad hwn am TAA yn berthnasol iddynt

Rhaid i'r enillion a nodwyd ym mlwch 33 hefyd cael eu cynnwys yn nhudalennau 'Crynodeb Treth Enillion Cyfalaf', sef y SA108.

> I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk a chwiliwch am 'HS261'.

## Incwm ac enillion tramor eraill

### Blwch 41 Enillion wrth waredu daliadau mewn cronfeydd alltraeth (ac eithrio'r symiau a nodwyd ym mlwch 13) ac incwm dewisol o ymddiriedolaethau sydd heb eu sefydlu yn y DU

Gall y rheolau mewn perthynas â gwaredu buddiant mewn cronfa alltraeth fod yn gymhleth. Gofynnwch i'ch ymgynghorydd treth neu gweler yr arweiniad yn ein *'Investment Funds Manual'* a'n *'Savings and Investments Manual'* os credwch efallai bod yn rhaid i chi lenwi blwch 41.

Os gawsoch incwm ar ffurf taliad o ymddiriedolaeth ddibreswyl, defnyddiwch Daflen Gymorth 262, *'Income and benefits from transfers of assets abroad and income from non-resident trusts'*, i'ch helpu i lenwi'r blwch hwn.

> I gael rhagor o wybodaeth ewch i'r *'Investment Funds Manual'* a'r *'Savings and Investment Manual'*, yn www.gov.uk/government/collections/hmrc-manuals

### Blwch 42 Os ydych wedi cael buddiant gan berson sydd dramor, neu rydych yn agored i dalu treth ar fuddiant a gafwyd gennych chi neu aelod o'ch teulu agos, neu os cewch rodd sydd wedi'i baru ag incwm o ffynhonnell dramor a ddiogelwyd, nodwch werth y taliad

Os mai chi yw'r setlwr, neu os ydych yn aelod agos o'r teulu i setlwr ymddiriedolaeth nad yw'n breswyl, ac rydych wedi cael, neu fe'ch trinnir fel pe baech wedi cael, buddiant gan yr ymddiriedolaeth, neu os cewch rodd, ac mae'r buddiant neu'r rhodd wedi'i baru ag incwm yr ymddiriedolaeth sydd ar gael ac wedi'i ddiogelu, nodwch werth y taliad a gafwyd.

Nodwch fanylion llawn yn y blwch 'Unrhyw wybodaeth arall' ar eich Ffurflen Dreth.

Os ydych yn hepgor incwm o'r adran hon oherwydd eich bod yn hawlio eithriad, gweler blwch 46.

Os yw hyn yn berthnasol, mae arnoch angen Taflen Gymorth 262, *'Income and benefits from transfers of assets abroad and income from non-resident trusts'* i'ch helpu i lenwi'r blwch hwn.

> I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk a chwiliwch am 'HS262'.

### Blychau 43 i 45 Enillion ar bolisïau yswiriant bywyd, blwydd-daliadau bywyd a pholisïau adbryniant cyfalaf

Defnyddiwch y manylion ar eich 'tystysgrif digwyddiad trethadwy' i'ch helpu i lenwi blychau 43 i 45. Peidiwch â chynnwys unrhyw swm a gynhwyswyd gennych eisoes ym mlwch 13.

Os ydych wedi gwneud enillion o fwy nag un polisi tramor, ychwanegwch nhw at ei gilydd a rhowch y cyfanswm ym mlwch 43. Gadewch flychau 44 a 45 yn wag.

Nodwch y manylion canlynol yn y blwch 'Unrhyw wybodaeth arall' ar dudalen TR 7 o'ch Ffurflen Dreth:

- manylion pob polisi unigol
- swm yr ennill ar gyfer pob polisi
- 'nifer y blynyddoedd' perthnasol ar gyfer pob ennill, fel y nodwyd ar y dystysgrif digwyddiad trethadwy
- treth sy'n cael ei thrin fel petai wedi'i thalu ar bob ennill

Bydd angen Taflen Gymorth 321, *'Gains on foreign life insurance policies'*, i'ch helpu i lenwi blychau 43 i 45 os:

- na gawsoch dystysgrif gan eich yswiriwr
- ydych yn berchen y polisi ar y cyd gyda rhywun arall (dylech ond gynnwys eich cyfran chi o'r ennill)
- oes gennych 'glwstwr' o bolisïau gyda'r un yswiriwr a bod gan un neu ragor ohonynt delerau penodol
- ydych wedi bod yn preswylio y tu allan i'r DU yn ystod y cyfnod rydych wedi bod yn berchennog llesiannol y polisi
- taloch bremiymau yr oedd eu cyfanswm yn fwy na £100,000 y flwyddyn i bolisi neu bolisïau a chawsoch ad-daliad ar ffurf comisiwn mewn perthynas â'r premiymau hynny neu ail fuddsoddwyd y comisiwn gennych yn y polisi ar ffurf premiwm ychwanegol
- ydych yn ystyried yr ennill i fod yn hollol anghymesur ac rydych am wneud cais i CThEF yn gofyn i'r ennill cael ei ail-gyfrifo

> I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk a chwiliwch am 'HS321'.

**Blwch 46 Os ydych wedi hepgor incwm o flychau 11, 13 a 42 oherwydd eich bod yn hawlio rhyddhad mewn perthynas â throsglwyddo asedion, nodwch y cyfanswm a gafodd ei hepgor**

Nid yw blychau 10 i 13 a blwch 42 yn berthnasol os gallwch ddangos mai diben y trosglwyddo ac unrhyw weithrediadau oedd yn ymwneud ag ef yn yr holl amgylchiadau oedd peidio ag arbed treth. Ar gyfer trafodion ar neu ar ôl 6 Ebrill 2012, mae unrhyw incwm y gellir ei briodoli i drafodion gwirioneddol wedi ei eithrio, am y byddai unrhyw rwymedigaeth a godir yn ffurfio cyfyngiad ar ryddidau Cytuniad yr UE (er enghraifft, rhyddid i sefydlu neu ryddid symudiad cyfalaf).

Mae eithriad yn ddyledus dim ond petai incwm gwirioneddol fel arall yn drethadwy.

Os byddwch yn hepgor incwm o flychau 11, 13 a 42 am y rheswm hwn, rhaid i chi nodi cyfanswm yr incwm a gafodd ei hepgor ym mlwch 46.

Rhaid i chi roi manylion yr asedion a drosglwyddwyd, ac unrhyw weithrediadau cysylltiedig, y person dan sylw sydd dramor, a sail eich hawliad yn 'Unrhyw wybodaeth arall' ar dudalen TR 7 eich Ffurflen Dreth neu ar dudalen ar wahân.

I gael rhagor o wybodaeth ynglŷn ag incwm a buddion wrth drosglwyddo asedion dramor, ac incwm o ymddiriedolaethau dibreswyl, ewch i www.gov.uk a chwiliwch am 'HS262'.

## Rhagor o gymorth os bydd ei angen arnoch

I gael copïau o unrhyw Ffurflenni Treth neu daflenni cymorth, ewch i www.gov.uk/ffurflenni-a-thaflenni-hunanasesiad

Gallwch ffonio Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEF ar 0300 200 1900 i gael help gyda'ch Ffurflen Dreth.

Mae gennym ystod o wasanaethau ar gyfer pobl gydag anabl, gan gynnwys arweiniad mewn Braille, ar dâp sain ac mewn print bras. Mae'r rhan fwyaf o'n ffurflenni hefyd ar gael mewn print bras. Ffoniwch ein llinellau cymorth am fwy o wybodaeth.

Arweiniad yn unig yw'r nodiadau hyn sy'n adlewyrchu'r sefyllfa ar adeg eu hysgrifennu. Nid ydynt yn effeithio ar yr hawl i apelio.